

Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1207
Ein cyf/Our ref JMEWL/11086/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

11 Hydref 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr am ddeiseb yn galw ar y Senedd, a chyrrff eraill, i gyfeirio at ddinasoedd a threfi Cymru yn ôl eu henwau Cymraeg. Er bod y ddeiseb yn cyfeirio at y Senedd yn benodol, rwy'n cymryd yn ganiataol ei fod yn cyfeirio hefyd at Weinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru.

I ateb y pwynt cyntaf, ynghylch cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, mae Llywodraeth Cymru o ddifrif ynghylch tyfu'r Gymraeg. Mae ein strategaeth *Cymraeg 2050*, sy'n gosod uchelgais ar gyfer sut rydym am weld y Gymraeg yn datblygu ac ehangu, wedi gwreiddio, a'n targedau o ran cynyddu nifer y siaradwyr i filiwn a dyblu defnydd dyddiol, yn gyrru polisïau ledled y Llywodraeth. Yn hynny o beth, mae'r strategaeth wedi gwneud llawer iawn i newid y disgwrs o gwmpas yr iaith, ac i'w throï'n sgwrs bositif.

O droi at y sylw mewn perthynas ag enwau lleoedd, mae ein Rhaglen Lywodraethu ddiweddaraf yn cynnwys ymrwymiad y byddwn yn: Gweithio i amddiffyn enwau lleoedd Cymraeg.

Fel y gwyddoch, mae'r maes hwn yn un cymhleth, ac mae'n cynnwys nifer o haenau sydd oll angen eu trin mewn ffordd wahanol. Fel rheol rydym yn rhannu'r maes yn 3 rhan:

1. Enwau dinasoedd, trefi a phentrefi
2. Enwau hanesyddol a daearyddol
3. Enwau tai

Mae'r 3 maes hyn yn cael eu dwyn ymlaen ar y cyd rhwng Cadw, Is-adran y Gymraeg a Chomisiynydd y Gymraeg, gyda Cadw'n gyfrifol am y polisi enwau hanesyddol a'r Comisiynydd yn safoni enwau dinasoedd, trefi a phentrefi. Ymddangosodd fy rhagflaenydd fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am y Gymraeg gerbron y Pwyllgor ym mis Ionawr eleni, gan ddarparu papur yn ymdrin â'r meysydd hyn. Mae ein gwaith yn hyn o beth yn parhau, ac rydym wrthi'n archwilio'r opsiynau ar sut orau i amddiffyn enwau lleoedd Cymraeg.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Serch hynny, mae gofynion y deisebwr yn mynd i dir ychydig yn wahanol, gan ofyn i ni arddel enwau Cymraeg yn unig ar drefi a dinasoedd.


Mewn rhai enghreifftiau, lle mae ynganiad enwau Cymraeg a Saesneg ar dref neu ddinas mor debyg i'w gilydd bod dadl gref dros lynu at un sillafiad, rwy'n credu y gall wneud synnwyr i lynu wrth y sillafiad Cymraeg. Yn hyn o beth, byddwn yn cefnogi'r egwyddor a hyrwyddir gan Gomisiynydd y Gymraeg, sef y dylem anelu at un ffurf pan fod ond ambell i lythyren o wahaniaeth rhwng y ffurfiau Cymraeg a'r rhai Saesneg. Yn y cyd-destun hwn, roedd ein polisi drafft ar Seilwaith Ieithyddol y Gymraeg (daeth ymgynghoriad yn ei gylch i ben ym mis Gorffennaf) yn nodi'r angen i hyrwyddo a phwysleisio statws enwau lleoedd sydd wedi eu safoni, a chodi ymwybyddiaeth o'r Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru, sy'n cael ei chynnal gan y Comisiynydd.

Ond aiff pethau'n fwy cymhleth pan fod yna enwau gwahanol yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer yr un dref neu ddinas. Mae gan bob tref, pentref a dinas ei hanes unigryw ei hun, ac mae'r hanes hwnnw'n perthyn i sut mae ei enw neu enwau wedi gwreiddio, datblygu a newid dros y canrifoedd.

Mae'r deisebydd yn cyfeirio'n benodol at enghraifft Caerdydd, sydd ynddo'i hun heb fod yn syml o bell ffordd. Mae'r enw modern Cymraeg *Caerdydd* yn dod o'r ffurf Gymraeg ganoloesol, *Caerdyf*, sydd yn y Saesneg wedi datblygu'n *Cardiff* (*gyda'r 'f' Cymraeg yn cael ei drosi'n 'ff' Saesneg*). O hepgor yr enw 'Saesneg' modern gallwn ddadlau ein bod hefyd yn dileu cysylltiad â ffurf ganoloesol enw'r ddinas.

Mae'r rhain yn faterion lleol yn aml iawn, ac er fy mod yn cefnogi'n llwyr yr arfer o ddefnyddio'r gair "Senedd" yn unig mewn iaith bob dydd, yn Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg, yn ogystal â sut mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn defnyddio "Cymru" wrth gyfathrebu yn y ddwy iaith, rwy'n credu bod angen iddyn nhw ganfod ffordd o adlewyrchu'r ystod eang o safbwyntiau a goblygiadau sy'n bodoli, fel yr awgrymir gan y paragraff blaenorol.

Yn gywir,



Jeremy Miles AS/MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language